



Cronfa Bensiwn
Caerdydd a Bro Morgannwg



Datganiad Cyfrifon 2023/24

Cynnwys

Adroddiad Naratif	2
Datganiad Actiwaraid	3
Datganiad o Gyfrifoldebau	6
Adroddiad Archwilio	7
Cyfrif y Gronfa	11
Datganiad Asedau Net	12
Nodiadau i'r Cyfrifon	13
Rhestr Termau	35

Adroddiad Naratif

Cyngor Caerdydd yw Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa) sydd yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) Cymru a Lloegr. Y CPLIL yw'r cynllun pensiwn galwedigaethol statudol ar gyfer yr holl gyflogaion llywodraeth leol (ac eithrio athrawon) a Llywodraeth y DU sy'n pennu'r rheoliadau.

Cyflawnir cyfrifoldebau'r Cyngor fel rheolwr y Gronfa drwy'r Pwyllgor Cronfa Bensiwn sy'n goruchwyllo strategaethau a pholisïau'r Gronfa. Y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau sy'n rheoli'r Gronfa'n weithredol. Mae'r Bwrdd Pensiynau Lleol yn cynorthwyo'r Cyngor i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau'r CPLIL a gofynion y Rheolydd Pensiynau ac i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weinyddu'n effeithiol ac yn effeithlon. Mae'r Pwyllgor Cronfa Bensiwn hefyd yn parhau i gael cymorth gan y Panel Cyngori ar Fuddsoddi y mae ei aelodaeth yn cynnwys dau gynghorydd annibynnol.

Roedd yna 45,331 o aelodau yn y Gronfa ar 31 Mawrth 2024 gydag 18,225 o weithwyr yn cyfrannu, 13,436 o bensiynwyr a 13,670 o aelodau gohiriedig.

Gwerth asedau Buddsoddi'r Gronfa Bensiwn ar 31 Mawrth 2024 oedd £2,963 miliwn, cynnydd o 12.4% o gymharu â'r prisiad ar 31 Mawrth 2023 o £2,635 miliwn. Yn ystod chwarter olaf 2023/24 gwelwyd perfformiad llawer gwell yn y marchnadoedd ariannol, yn enwedig o ran Ecwiti Byd-eang lle cafwyd cynnydd amlwg mewn nifer fach o stociau technoleg a dewisol defnyddwyr mawr iawn yr Unol Daleithiau. Dylanwadwyd hyder gwell yn y farchnad gan ddisgwyliad o dorri cyfraddau llog mewn ymateb i sefydlogi chwyddiant a disgwyliad cynyddol y byddai'r economïau byd-eang mawr yn osgoi dirwasgiad serth.

Parhaodd wyth awdurdod y gronfa CPLIL yng Nghymru i wneud cynnydd yn ystod y flwyddyn gyda datblygiad Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) gan lansio is-gronfeydd newydd, yn benodol o fewn Marchnadoedd Preifat. Ym mis Gorffennaf 2023 lansiwyd is-gronfa Ecwiti Gweithredol Byd-eang Cynaliadwy PPC sy'n gweithredu gyda'r un targed a meincnod â phortffolios Ecwiti Byd-eang cyfredol PPC. Ar hyn o bryd dyma'r unig is-gronfa PPC y mae pob un o'r wyth cronfa bensiwn gyfansoddol wedi buddsoddi ynddi. Yn ystod 2023/24 dechreuodd y Gronfa hon dalu ymrwymadau cyfalaf i is-gronfeydd Marchnad Breifat PPC gyda buddsoddiadau yn is-gronfeydd Credyd Preifat, Seilwaith ac Ecwiti Preifat PPC. Roedd costau uwch oherwydd trosglwyddo buddsoddiadau i PPC. Disgwylir costau uwch yn y byrdymor wrth i ni barhau i drosglwyddo ond disgwyliwn i'r rhain leihau'n unol â threfniadau cronni.

Ar 31 Mawrth 2024 roedd gwerth asedau'r Gronfa a gadwyd mewn deuddeg is-gronfa PPC, o gymharu ag ar 31 Mawrth 2023, yn 61.6% o gyfanswm gwerth y Gronfa sy'n cynyddu i 86.4% o werth y Gronfa os cynhwysir cronfa ecwiti goddefol BlackRock a gaffaelwyd ar y cyd. Felly roedd y Gronfa hon mewn sefyllfa dda o ran ymgynghori yr Adran dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC) ar gronni gyda'i tharged o 31 Mawrth 2025 i gronni'r holl asedau. Yn dilyn etholiad Gorffennaf 2024 mae DLUHC wedi'i ail-enwi Y Weinyddiaeth dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) a gyhoeddodd ym mis Medi 2024 Alwad am Dystiolaeth o ran y camau nesaf ar gyfer cyfnerthu CPLIL a chynyddu buddsoddiadau'n nosbarthiadau asedau'r DU.

Parhaodd y gwaith yn 2023/24 ar Strategaeth Sero Net y Gronfa, gan arwain at y Pwyllgor Pensiwn yn ei gyfarfod ar 20 Mai 2024 yn cymeradwyo'r Polisi Sero Net gan gynnwys gosod targed uchelgeisiol ond cyraeddadwy i'r Gronfa fod yn sero net erbyn 2040.

Christopher Lee
Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau

Datganiad Actiwaraid

Cyflwyniad

Mae'r datganiad hwn wedi cael ei baratoi yn unol â Rheoliad 57(1)(d) Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (Rheoliadau CPLIL).

Yn ôl Rheoliadau CPLIL rhaid cynnal prisiad actiwaraid llawn bob tair blynedd. Diben hyn yw sicrhau y gall Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa) gyflawni ei rhwymedigaethau i gyfranwyr hen a newydd, ac adolygu cyfraddau cyfrannu cyflogwyr. Cwblhawyd yr ymchwiliad actiwaraid llawn diwethaf i sefyllfa ariannol y Gronfa ar 31 Mawrth 2022 gan Aon, yn unol â Rheoliad 62 Rheoliadau CPLIL.

Sefyllfa Actiwaraid

1. Dangosodd y prisiad ar 31 Mawrth 2022 fod lefel ariannu'r Gronfa wedi gwella ers y prisiad diwethaf, gyda gwerth marchnad asedau'r Gronfa ar 31 Mawrth 2022 (£2,698.9 miliwn) yn cwmpasu 98% o'r rhwymedigaethau.
2. Roedd y prisiad hefyd yn asesu sefyllfa pob cyflogwr unigol (neu grŵp o gyflogwyr) ar wahân. Penderfynwyd ar ofynion cyfraniadau yn seiliedig ar egwyddorion Datganiad Strategaeth Ariannu'r Gronfa ac fe'u nodir yn adroddiad Aon dyddiedig 31 Mawrth 2023 (yr "adroddiad prisiad actiwaraid"). Yn ogystal â'r cyfraniadau uchod, bydd cyflogwyr yn gwneud taliadau i'r Gronfa i dalu rhwymedigaethau ychwanegol sy'n deillio o ymddeol yn gynnar (heblaw am ymddeol oherwydd salwch).

Amcangyfrifir y bydd cyfanswm y cyfraniadau sy'n daladwy gan bob cyflogwr dros y tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2026 fel a ganlyn:

Blwyddyn o 1 Ebrill	% o dâl pensiynadwy	Ynghyd â chyfanswm y cyfraniad (£M)
2023	19.5%	0.932
2024	19.5%	0.962
2025	19.5%	0.994

3. Roedd y cynllun ariannu a fabwysiadwy wrth asesu cyfraniadau pob cyflogwr yn unol â'r Datganiad Strategaeth Ariannu. Mabwysiadwyd gwahanol ddulliau gweithredu o ran cyfrifo'r gyfradd cyfraniadau sylfaenol, newidiadau o ran cyfraniadau a chyfnodau adfer cyflogwyr unigol fel y cytunwyd gyda'r Awdurdod Gweinyddu ac fel y dangosir yn y Datganiad Strategaeth Ariannu, gan adlewyrchu amgylchiadau'r cyflogwyr.
4. Cynhaliwyd y prisiad gan ddefnyddio'r dull actiwaraid uned a ragfyneir ar gyfer y rhan fwyaf o gyflogwyr, gan ganiatáu ar gyfer codiadau cyflog pensiynadwy yn y dyfodol. Roedd y prif rhagdybiaethau actiwaraid ariannol a ddefnyddiwyd i asesu'r targed cyllido a'r cyfraddau cyfrannu fel a ganlyn.

Cyfradd is ar gyfer cyfnodau gwasanaeth	4.5% y flwyddyn
Cyfradd is ar gyfer cyfnodau ar ôl gadael gwasanaeth	
Targed cyllid y corff cofrestredig / gogynnwys *	4.5% y flwyddyn
Targed ariannu amddifad parhaus	1.3% y flwyddyn
Cyfradd cynnydd tâl	3.3% y flwyddyn
Cyfradd cynnydd cyfrifon pensiwn **	2.3% y flwyddyn
Cyfradd cynnydd i bensiynau wrth eu talu ** (yn fwy na'r Warant Lleiafswm Pensiwn)	2.3% y flwyddyn

**Defnyddiwyd cyfradd is y corff cofrestredig hefyd ar gyfer cyflogwyr y bydd eu rhwymedigaethau yn cael eu hamsugno ar ôl gadael gan gorff cofrestredig.*

*** Yn ogystal, mae codiad o 10% wedi'i gymhwyso i rwymedigaethau gwasanaeth blaenorol ar darged ariannu'r corff cofrestredig / gogynnwys i ganiatáu ar gyfer chwyddiant byrdymor uwchlaw'r rhagdybiaeth hirdymor.*

Hefyd, tybiwyd mai'r gyfradd is a'r gyfradd cynyddiadau i bensiynau ar gyfer rhwymedigaethau a amddifadwyd eisoes (h.y. lle nad oes cyflogwr cynllun sy'n gyfrifol am ariannu'r rhwymedigaethau hynny ac mae'r cyflogwr wedi gadael y Gronfa) oedd 1.7% y flwyddyn a 3.4% y flwyddyn yn y drefn honno.

Prisiwyd yr asedau ar werth y farchnad.

- Y rhagdybiaeth demograffig allweddol oedd y lwfans a wnaed am hirhoedledd. Roedd y rhagdybiaeth marwolaethau ôl-ymddeol a fabwysiadwyd ar gyfer y prisiad actiwaraid yn unol â thablau marwolaethau S3 y cynllun pensiwn hunan-weinyddol (CPHW) safonol gyda ffactorau graddio priodol yn seiliedig ar ddadansoddiad o gyfradd marwolaethau pensiynwyr y Gronfa a dadansoddiad cod post aelodau'r Gronfa gan ddefnyddio model hirhoedledd Demographic HorizonsTM Aon, gan gynnwys lwfans gwelliannau'n seiliedig ar Fodel Rhagfynegiadau Archwiliadau Marwolaethau Parhaus 2021, gyda chyfradd flynyddol hirdymor o welliant yn y cyfraddau marwolaethau gan 1.5% y flwyddyn. Y disgwyliad oes cyfartalog a ddeilliodd o hynny yn 65 oed (ar gyfer ymddeoliadau iechyd arferol) oedd:

	Dynion	Menywod
Pensiynwyr 65 oed ar y dyddiad prisio	22.5	24.6
Pensiynwyr y dyfodol sy'n 45 oed ar y dyddiad prisio	23.1	25.7

Nodwyd manylion pellach y rhagdybiaethau a fabwysiadwyd i'w prisio, gan gynnwys y rhagdybiaethau demograffig, yn yr adroddiad prisio actiwaraid.

- Mae canlyniadau'r prisiad a gynhoir ym mharagraff 1 uchod yn seiliedig ar y sefyllfa ariannol a lefelau'r farchnad ar y dyddiad prisio, 31 Mawrth 2022. O'r herwydd, nid yw'r canlyniadau'n gadael lle i ystyried y newidiadau sydd wedi digwydd yn dilyn y dyddiad prisio. Mae'r Actiwari, ar y cyd â'r Awdurdod Gweinyddu, yn monitro'r sefyllfa ariannu yn rheolaidd.
- Llofnodwyd yr adroddiad prisio actiwaraid ffurfiol a'r Dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau sy'n nodi'r cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2026 ar 31 Mawrth 2023. Ac eithrio fel y cytunwyd neu fel arall a ganiateir neu sy'n ofynnol gan y Rheoliadau, adolygir cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr adeg prisiad actiwaraid nesaf y Gronfa ar 31 Mawrth 2025 yn unol â rheoliad 62 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

8. Lluniwyd y Datganiad hwn gan Actiwari y Gronfa, Aon, i'w gynnwys yng nghyfrifon y Gronfa. Mae'n rhoi crynodeb o ganlyniadau'r prisiad actiwaraid a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2022. Mae'r prisiad yn rhoi cipolwg ar y sefyllfa ariannu ar ddyddiad y prisiad ac fe'i defnyddir i asesu lefel y cyfraniadau y bydd eu hangen yn y dyfodol.

Ni ddylid ystyried y Datganiad hwn heb gyfeirio at yr adroddiad prisio actiwaraid ffurfiol sy'n manylu'n llawn ar gyd-destun a chyfyngiadau'r prisiad actiwaraid.

Nid yw Aon yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb neu rwymedigaeth i unrhyw barti oni bai am ein cleient, Cyngor Caerdydd, Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa, o ran y Datganiad hwn.

9. Mae'r adroddiad ar y prisiad actiwaraid ar 31 Mawrth 2022 ar gael ar wefan y Gronfa yn y cyfeiriad canlynol:

<https://www.cardiffandvalepensionfund.org.uk/wp-content/uploads/Cardiff-2022-actuarial-valuation-report-FINAL.pdf>

Aon Solutions UK Limited

Mehefin 2024

Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiadau Ariannol

Cyfrifoldebau'r Cyngor

Fel awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, mae gofyn i Gyngor Caerdydd:

- wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn gywir i sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn 2023/24, y swyddog hwnnw oedd Christopher Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau;
- rheoli ei faterion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau;
- cymeradwyo'r datganiad cyfrifon.

Y Cyngorydd Helen Lloyd Jones
Dirprwy Arglwydd Faer

Dyddiad:

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau

Y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau (sydd yn swydd statudol y Swyddog Adran 151) sy'n gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol y Cyngor yn unol ag arferion priodol fel y nodir yng Nghod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023/24 (y Cod).

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau wedi:

- dewis polisiau cyfrifyddu addas ac yna eu rhoi ar waith yn gyson, heblaw os yw newidiadau polisi wedi'u nodi yn y cyfrifon hyn;
- gwneud beirniadaethau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn ddarvoudus; a
- chydymffurfio â'r Cod.

Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau hefyd wedi:

- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir wedi eu diweddarau; a
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Tystysgrif y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau

Mae'r datganiadau ariannol ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn rhoi golwg wir a theg o'i hincwm a'i gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24 a'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2024.

Christopher Lee
Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau

Dyddiad:

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer aelodau Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd fel awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn cynnwys cyfrif y gronfa, y datganiad asedau net a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu sylweddol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yn gyfraith berthnasol a mabwysiadodd y DU safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac a addaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023-24.

Yn fy marn i ym mhob agwedd faterol, mae'r datganiadau ariannol:

- rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y gronfa pensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024, a'r swm a'r gwarediad ar y dyddiad hwnnw o'i asedau a'i rwymedigaethau;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023-24.

Sail ar gyfer barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn yr adran o fy adroddiad ar gyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau yn annibynnol ar y gronfa pensiwn yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnais, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau y Swyddog Cyfrifyddu mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ar wahân i'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Naratif. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a gyflawnais, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi sôn am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano i'r perwyl hwn.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013

Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod y gwaith archwilio, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Atebolrwydd (gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu).

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol yr adroddaf i chi, os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.
- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi eu cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad Cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 15, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am:

- baratoi'r datganiadau ariannol, sy'n rhoi golwg wir a theg;
- gadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rheolaethau mewnol fel y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn eu diwygio fel y bo'n briodol yn penderfynu yn angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad;
- asesu'r Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro MorgannwgGallu parhau fel mater o drefn, datgelu fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â mynd i bryder a defnyddio sail barhaus cyfrifyddu oni bai bod y swyddog ariannol cyfrifol yn rhagweld bod y gwasanaethau a ddarperir gan Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg Ni fydd yn parhau i gael ei ddarparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Sicrwydd rhesymol yw lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi trwy dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn

unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, [pennaeth archwilio mewnol yr endid archwiliedig] a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau [enw'r corff] mewn cysylltiad â:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
- ystyried, gan weithredu fel tîm archwilio, sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl;
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg; a
- chael dealltwriaeth o berthnasoddd parti cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfedd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio ynghylch cyfreithiad a honiadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r awdurdod gweinyddu; a
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrth-wneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i bob tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau'r Cyngor, a natur, amseru a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

Cyfrifoldebau archwilydd eraill

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol ymhlith materion eraill, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Rwy'n ardystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Prif Gwnstabl Cronfa Bensiwn Heddlu Gwent a Gwent yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
[Dyddiad]

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrif y Gronfa

2022/23		Nodyn	2023/24
£000			£000
	Cysylltiadau gydag aelodau, cyflogwyr ac eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gronfa		
	Cyfraniadau		
(84,513)	Gan gyflogwyr	8	(79,896)
(24,885)	Gan gyflogeion	8	(27,253)
0	Trosglwyddiadau grŵp o gynlluniau neu gronfeydd eraill		0
(4,364)	Trosglwyddiadau unigol o gynlluniau neu gronfeydd eraill		(3,581)
(1,264)	Incwm arall (taliadau wedi'u cyfalafu a llog ar ariannu diffyg)		(4,188)
(115,026)			(114,918)
	Buddion Taladwy		
76,139	Pensiynau	9	85,183
18,303	Cyfandaliadau, grantiau a thaliadau eraill	9	23,457
	Taliadau i'r sawl sy'n gadael ac o'u herwydd		
106	Ad-daliadau cyfraniadau		100
0	Trosglwyddiadau grŵp i gynlluniau neu gronfeydd eraill		0
5,416	Trosglwyddiadau unigol i gynlluniau neu gronfeydd eraill		5,253
99,964			113,993
(15,062)	(Ychwanegiadau) / alldyniadau net o drafodaethau gydag aelodau'r Gronfa		(925)
6,586	Treuliau rheoli	10	8,080
(8,476)	(Ychwanegiadau) / alldyniadau net, gan gynnwys treuliau rheoli'r gronfa		7,155
	Adenillion ar Fuddsoddiadau		
(42,484)	Incwm buddsoddi	11	(52,342)
110,553	Newid yng ngwerth marchnad buddsoddiadau	12a	(283,983)
68,069	Adenillion net ar fuddsoddiadau		(336,325)
59,593	(Cynnydd)/gostyngiad net yn y Gronfa yn ystod y flwyddyn		(329,170)
(2,698,882)	Asedau net y cynllun wrth agor		(2,639,289)
(2,639,289)	Asedau net y cynllun wrth gau		(2,968,459)

Datganiad Asedau Net

2022/23		Nodyn	2023/24
£000			£000
2,547,762	Buddsoddiadau ar werth y farchnad	12	2,842,209
87,646	Arian parod (gan gynnwys deilliadau) ac enillion buddsoddi sy'n ddyledus	12	121,133
2,635,408	Cyfanswm buddsoddiadau		2,963,342
76	Treth y DU a thramor		49
3,369	Cyfraniadau sy'n ddyledus gan gyflogwyr ac ariannu diffyg		3,192
809	Dyledwyr amrywiol		726
1,772	Costau straen pensiwn sy'n ddyledus o fewn blwyddyn		1,217
6,026	Cyfanswm asedau cyfredol		5,184
0	Ariannu diffyg (cyn-gyflogwyr)		21
491	Costau straen pensiwn sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn		2,280
491	Cyfanswm asedau anghyfredol		2,301
(591)	Buddion heb eu talu		(461)
(905)	Credydwyr amrywiol		(1,212)
(490)	Darpariaeth - grantiau marwolaeth	20	(50)
(1,986)	Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol		(1,723)
(650)	Darpariaeth - grantiau marwolaeth	20	(645)
(650)	Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol		(645)
2,639,289	Asedau net y cynllun		2,968,459

Nodiadau i'r Cyfrifon

1. Disgrifiad o'r Gronfa

Gweinyddir Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa) gan Gyngor Caerdydd ac mae'n rhan o'r CPLIL.

Cyffredinol

Rheolir y cynllun gan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. Gweinyddir y Gronfa yn unol â'r is-ddeddfwriaeth ganlynol:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'u diwygiwyd)
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Diwygio) 2014 (fel y'u diwygiwyd)
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016.

Mae'n gynllun pensiwn cyfrannol â budd diffiniedig a weinyddir gan Gyngor Caerdydd i ddarparu pensiynau a buddion eraill i gyflogeion pensiynadwy Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg, ac eithrio athrawon sydd dan gynllun ar wahân. Caniateir i gyflogeion amrywiaeth o gyrff eraill cofrestredig a derbyniedig yn yr ardal ymuno â'r Gronfa hefyd. Goruchwylir y Gronfa gan y Pwyllgor Cronfa Bensiwn, sy'n un o bwyllgorau Cyngor Caerdydd.

Aelodaeth

Mae aelodaeth o'r CPLIL yn awtomatig i bob cyflogai, a all wedyn ddewis aros yn y cynllun neu wneud ei drefniadau personol ei hun y tu allan i'r cynllun.

Mae'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn cynnwys y canlynol:

- Cyrff cofrestredig, sydd â hawl awtomatig i fod yn aelodau o'r Gronfa
- Cyrff derbyniedig, sy'n cymryd rhan yn y Gronfa yn rhinwedd cytundeb derbyn a wnaed rhwng y Gronfa a'r cyflogwr. Mae cyrff derbyniedig yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol, elusennol a sefydliadau dielw tebyg, neu gontractwyr preifat sy'n cyflawni swyddogaeth awdurdod lleol ar ôl rhoi contractau allanol i'r sector preifat.

Cyllid

Ariennir buddion gan gyfraniadau ac enillion buddsoddi. Caiff cyfraniadau eu gwneud gan aelodau gweithredol y Gronfa yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ac maent yn amrywio o 5.5% i 12.5% o dâl pensiynadwy ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024. Gosodir cyfraniadau cyflogwyr yn seiliedig ar brisiadau ariannu actiwaraid teirblwydd. Y prisiad diwethaf o'r fath oedd 31 Mawrth 2022. Ar hyn o bryd, mae cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn amrywio o 14.5% i 38.9% o dâl pensiynadwy a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2023.

Manteision

Cyn 1 Ebrill 2014, roedd buddion pensiwn dan y CPLIL yn seiliedig ar dâl pensiynadwy terfynol a hyd gwasanaeth pensiynadwy. O 1 Ebrill 2014, daeth y cynllun yn gynllun cyfartaledd gyrfa, lle mae aelodau'n cronni buddion yn seiliedig ar eu cyflog pensiynadwy yn y flwyddyn honno ar gyfradd gronol o 1/49fed. Mae pensiwn cronedig yn cael ei uwch-brisio'n flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Darperir amrywiaeth o fuddion eraill hefyd gan gynnwys ymddeoliad cynnar, pensiynau anabledd a buddion

marwolaeth. I gael rhagor o fanylion, ewch i wefan Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg <https://www.cardiffandvalepensionfund.org.uk/cy/>

2. Sail Paratoi

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 a'i sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2024. Paratowyd y cyfrifon yn unol â Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig, 2023/24 sy'n seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) fel y'u diwygiwyd ar gyfer sector cyhoeddus y DU.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ac yn adrodd ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion pensiwn. Nid ydynt yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion sy'n ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

Cafodd y cyfrifon eu paratoi ar sail busnes hyfyw.

3. Polisiâu Cyfrifyddu Sylweddol

Polisiâu cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond sydd heb eu mabwysiadu eto

Ar ddyddiad y fantolen, ni chafodd unrhyw safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond sydd heb eu mabwysiadu eto eu nodi.

Incwm a Gwariant

Mae galwadau a dosraniadau o fuddsoddiadau'r farchnad breifat (ecwiti preifat, credyd preifat a seilwaith pen caeedig) yn cael eu cydnabod ar ddyddiad cyhoeddi.

Mae incwm a enillir o fewn rhai o'r buddsoddiadau cyfun yn cael ei gadw gan reolwr y gronfa fel rhan o asedau cyfalaf y gronfa a'i adlewyrchu yn y pris uned uwch. Ar gyfer pob buddsoddiad cyfunol arall, ac eithrio buddsoddiadau marchnad breifat, ailfuddsoddir yr incwm drwy brynu unedau ychwanegol yn y gronfa.

Mae costau rheoli buddsoddiadau yn cael eu cydnabod yn ystod y flwyddyn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr enillion ar fuddsoddiad a adroddir, na'u netio ohonynt.

Nid yw'r Gronfa'n ystyried unrhyw fuddion sy'n daladwy neu sy'n ddyledus o ran aelodau sydd am drosglwyddo o un cynllun i'r llall nes derbynnir asedau (naill ai buddsoddiadau arian parod neu fath arall) gan y cynllun sy'n eu derbyn.

Ystyriwyd yr holl incwm a gwariant arall ar sail gronnol, ac eithrio'r rhwymedigaeth i dalu pensiynau a buddion yn y dyfodol, a gafodd ei datgelu ar wahân o fewn y nodiadau i'r cyfrifon.

Costau caffael buddsoddiadau

Mae costau caffael wedi'u cynnwys yng nghost y llyfr gwreiddiol ar yr adeg prynu. Cofnodir y gwahaniaeth rhwng y gost wreiddiol a'r gwerth ar y dyddiad adrodd yn y cyfrifon fel "Newid yng Ngwerth Marchnad y Buddsoddiadau".

Prisio Buddsoddiadau

Cynhwysir buddsoddiadau yn y datganiadau ariannol ar sail gwerth teg fel ar y dyddiad adrodd. Cafodd gwerthoedd y buddsoddiadau fel y'u dangosir yn y datganiad asedau net eu pennu yn unol â gofynion y Cod a SAARh 13. Ceir manylion y dulliau prisio a ddefnyddir gan y Gronfa yn Nodyn 14c.

Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod

Mae arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, y balans net ar holl gyfrifon banc y Cyngor. Mae'n cynnwys adneuron gyda sefydliadau ariannol, gan gynnwys rheolwyr buddsoddi a'r ceidwad, sy'n addaladwy ar rybudd o ddim mwy na 24 awr heb gosb sylweddol. Mae hefyd yn cynnwys buddsoddiadau'n aeddfedu a llog a dderbyniwyd ar ddiwrnod gwaith cyntaf mis Ebrill.

Trafodion Arian Tramor

Pan dderbynnir prisiadau buddsoddi gan reolwyr y gronfa mewn arian cyfred tramor, maent yn cael eu trosi ar gyfradd cau Banc Lloegr ar y dyddiad prisio.

Trethiant

Trethiant	Triniaeth
Treth Incwm y DU	Mae'r Gronfa'n un gymeradwy eithriedig a all adennill trethi incwm y DU.
Treth ar Enillion Cyfalaf y DU	Nid oes treth ar enillion cyfalaf yn daladwy.
Treth Ar Werth	Nid yw'r cyfrifon a ddangosir yn cynnwys TAW. Gan mai'r Cyngor yw'r Awdurdod gweinyddu, gellir adennill TAW ar holl weithgareddau'r Gronfa.
Treth a Gedwir Dramor	Yn aml bydd buddsoddiad tramor yn dioddef o gadw treth yn ôl yn y wlad wreiddiol, y mae modd o bosibl adennill rhywfaint ohoni. Caiff treth nad oes modd ei hadennill ei netio yn erbyn incwm.

4. Barn allweddol ar weithredu polisiâu cyfrifyddu

Buddsoddiadau marchnad breifat heb ddyfynbris

Mae'r rhain yn eu hanfod yn seiliedig ar amcangyfrifon a dyfarniadau am y dyfodol sy'n cael eu prisio gan y rheolwyr buddsoddi gan ddefnyddio'r Canllawiau Prisio Ecwiti Preifat a Chyfalaf Menter Rhyngwladol.

Atebolrwydd Cronfeydd Pensiwn

Cyfrifir hyn yn unol â IAS19 gan yr actiwari bob tair blynedd gyda datganiad blynyddol yn y blynyddoedd rhyngddynt. Mae'r dyfynbris yn destun amrywiaethau sylweddol yn seiliedig ar newidiadau i'r rhagdybiaethau gwaelodol y cytunir arnynt gyda'r actiwari.

5. Rhagdybiaethau am y dyfodol a ffynonellau eraill o ansicrwydd amcangyfrif

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed wrth ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau eraill. Oherwydd nad oes modd penderfynu ar falansau â sicrwydd, gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Eitem	Ansicrwydd	Effaith petai'r canlyniadau gwirioneddol yn wahanol i'r rhagdybiaethau
Gwerth presennol gwirioneddol buddion ymddeol a addawyd	Mae amcangyfrif rhwymedigaeth net i dalu pensiynau'n dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth o ran y gyfradd ostyngol a ddefnyddir, y gyfradd cynyddu cyflogau, newidiadau mewn	Gellir mesur yr effeithiau ar rwymedigaeth pensiwn net y newidiadau mewn rhagdybiaethau unigol. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y rhagdybiaeth cyfradd ostyngol yn

	cyfraddau marwolaethau ac adenillon disgwylidig ar asedau'r gronfa bensiwn. Mae'r actiwari'n rhoi cyngor ar y rhagdybiaethau i'w defnyddio i'r Gronfa.	arwain at ostyngiad yn y rhwymedigaeth bensiwn. Byddai cynnydd mewn chwyddiant enillion a ragdybir neu ddisgwyliad oes a ragdybir yn cynyddu gwerth y rhwymedigaethau.
Prisiadau'r Farchnad Breifat	Prisir buddsoddiadau'r farchnad breifat ar werth teg yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol. Nid yw'r buddsoddiadau hyn wedi'u rhestru'n gyhoeddus ac felly mae elfen o amcangyfrif ynghlwm wrth y broses brisio.	Cyfanswm y buddsoddiadau marchnad breifat yn y datganiadau ariannol yw £133 miliwn. Mae risg y gallai buddsoddiad gael ei ddatgan neu ei or-ddatgan yn y cyfrifon. Ceir rhagor o wybodaeth am sensitifrwydd yr asedau hyn yn y cyfrifon.
Cronfeydd Eiddo Cyfun a Seilwaith Pen Agored	Defnyddir technegau prisio i bennu swm cario'r cronfeydd eiddo cyfun a chronfeydd seilwaith pen agored.	Cyfanswm y buddsoddiadau cronfa eiddo cyfun a seilwaith pen agored yn y datganiadau ariannol yw £209 miliwn. Gallai newidiadau yn y rhagdybiaethau prisio a ddefnyddir, yn ogystal â newidiadau sylweddol yn nhwf rhentu (cynnydd neu ostyngiad) effeithio ar werth teg buddsoddiadau eiddo. Ceir rhagor o wybodaeth am sensitifrwydd yr asedau hyn yn y cyfrifon.

6. Teitlau Perchenogaeth

Cedwir tystiolaethau o berchenogaeth y cronfeydd eiddo cyfun (ac eithrio Blackrock a gedwir gan The Northern Trust Company) a daliadau ecwiti preifat (ac eithrio daliadau'r PPC) gan Gyngor Caerdydd. Cafodd yr holl dystiolaethau eraill o berchnogaeth ar 31 Mawrth 2024 eu dal gan The Northern Trust Company er budd y Cyngor a PPC. Darparwyd datganiadau daliadau gan Northern Trust.

7. Aelodaeth

Mae aelodau'r gronfa ar 31 Mawrth 2024 fel a ganlyn:

2022/23		2023/24
40	Cyflogwyr sy'n Cyfrannu	41
40	Cyfanswm y Cyflogwyr sy'n Cyfrannu	41
17,660	Cyfranwyr	18,225
12,880	Pensiynwyr	13,436
13,689	Pensiynwyr gohiriedig	13,670
44,229	Cyfanswm aelodau	45,331

Yn ogystal â'r uchod, mae yno aelodau hefyd nad oeddent wedi'u categorio eto ar ddiwedd y flwyddyn o ran a fyddent yn gohirio eu pensiwn, yn ei drosglwyddo i gynllun arall neu'n gofyn am ad-daliad o'u cyfraniadau ac felly nid ydynt yn cyfrannu'n weithredol at y Gronfa Bensiwn. Nifer yr aelodau heb eu categorio eto ar 31 Mawrth 2024 oedd 10,508 (9,215 ar 31 Mawrth 2023).

8. Cyrff Cyflogi – Cyfraniadau

2023/24	Nifer y cyfranwyr ar 31/03/2024	Cyflogwyr	Cyllid Diffyg a Dderbyniwyd	Cyfanswm Cyflogwyr	Cyflogeion	Cyfanswm
		£000	£000	£000	£000	£000
Corff Gweinyddu:						
Cyngor Caerdydd	11,062	(51,330)	0	(51,330)	(16,629)	(67,959)
Cyrff Cofrestredig:						
Cyngor Bro Morgannwg	4,513	(17,490)	0	(17,490)	(5,786)	(23,276)
Cynghorau Tref a Chymuned	60	(307)	0	(307)	(104)	(411)
Cyrff Addysg	1,823	(8,483)	0	(8,483)	(3,434)	(11,917)
Cyrff Cofrestredig Eraill	6	(45)	0	(45)	(16)	(61)
Cyrff Derbyniedig:						
Cyrff Derbyniedig *	761	(2,204)	(37)	(2,241)	(1,284)	(3,525)
Cyfanswm	18,225	(79,859)	(37)	(79,896)	(27,253)	(107,149)

*Gadawodd dau gyflogwr corff derbyniedig y gronfa yn 2023/24, mae'r taliadau ymadael dros ben o £3.234 miliwn wedi'u cynnwys yn y ffigurau Cyflogwyr uchod.

2022/23	Nifer y cyfranwyr ar 31/03/2023	Cyflogwyr	Cyllid Diffyg a Dderbyniwyd	Cyfanswm Cyflogwyr	Cyflogeion	Cyfanswm
		£000	£000	£000	£000	£000
Corff Gweinyddu:						
Cyngor Caerdydd	10,808	(50,319)	0	(50,319)	(15,326)	(65,645)
Cyrff Cofrestredig:						
Cyngor Bro Morgannwg	4,290	(17,284)	0	(17,284)	(5,077)	(22,361)
Cynghorau Tref a Chymuned	60	(283)	0	(283)	(91)	(374)
Cyrff Addysg	1,704	(8,205)	0	(8,205)	(3,097)	(11,302)
Cyrff Cofrestredig Eraill	6	(44)	0	(44)	(15)	(59)
Cyrff Derbyniedig:						
Cyrff Derbyniedig	792	(5,276)	(3,102)	(8,378)	(1,279)	(9,657)
Cyfanswm	17,660	(81,411)	(3,102)	(84,513)	(24,885)	(109,398)

Ariannu diffyg ychwanegol

Ni chytunwyd ar unrhyw gyllid diffyg ychwanegol yn 2023/24 ar ben yr hyn y cytunwyd arno yn y blynnyddoedd blaenorol (dim cyllid diffyg ychwanegol yn 2022/23).

9. Cyrff Cyflogi – Buddion sy'n Daladwy

2023/24	Pensiynau Ymddeol	Cyfandaliadau, Grantiau a Thaliadau Eraill		
		Cyfandaliadau wrth Ymddeol	Grantiau Marwolaeth	Taliadau Gohiriedig
	£000	£000	£000	£000
Corff Gweinyddu:				
Cyngor Caerdydd	53,523	11,748	1,715	310
Cyrff Cofrestredig:				
Cyngor Bro Morgannwg	16,869	4,735	550	116
Cynghorau Tref a Chymuned	264	10	21	18
Cyrff Addysg	4,330	1,369	213	60
Cyrff Cofrestredig Eraill	2,783	27	0	0
Cyrff Derbyniedig:				
Cyrff Derbyniedig	7,414	2,276	289	0
Cyfanswm	85,183	20,165	2,788	504

2022/23	Pensiynau Ymddeol	Cyfandaliadau, Grantiau a Thaliadau Eraill		
		Cyfandaliadau wrth Ymddeol	Grantiau Marwolaeth	Taliadau Gohiriedig
	£000	£000	£000	£000
Corff Gweinyddu:				
Cyngor Caerdydd	48,125	8,608	1,603	530
Cyrff Cofrestredig:				
Cyngor Bro Morgannwg	15,009	3,781	1,487	145
Cynghorau Tref a Chymuned	221	63	0	0
Cyrff Addysg	3,808	913	159	94
Cyrff Cofrestredig Eraill	2,639	12	0	0
Cyrff Derbyniedig:				
Cyrff Derbyniedig	6,337	818	89	1
Cyfanswm	76,139	14,195	3,338	770

10. Treuliau Rheoli

2022/23		2023/24
£000		£000
1,370	Costau gweinyddu	1,835
43	Ffioedd archwilio	46
1,413	Cyfanswm costau gweinyddu	1,881
0	Seilwaith Ynni Glân PPC	86
171	Cronfa Gredyd PPC	173
124	Cronfa Marchnadoedd sy'n Datblygu PPC	89
758	Cronfa Twf Byd-eang PPC	693
424	Cronfa Cyfleoedd Byd-eang PPC	355
222	Cronfa Bondiau'r Llywodraeth PPC	183
108	Cronfa Credyd Aml-ased PPC	120
0	Credyd Preifat PPC	1,054
0	Ecwiti Preifat PPC	25
0	Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy PPC	70
150	Cronfa Ecwiti Cyfleoedd y DU PPC	366
53	Cronfa Ecwiti Gyfun	65
1,473	Cronfeydd Eiddo Cyfun	1,279
1,172	Ecwiti preifat	1,078
321	Ffioedd gwarchod	306
4,976	Cyfanswm treuliau rheoli buddsoddi	5,942
197	Cyfanswm costau goruchwyllo a llywodraethu	257
6,586	Cyfanswm	8,080

2022/23	Treuliau Rheoli PPC	2023/24
£000		£000
833	Ffioedd rheolwyr cronfa	613
1,124	Costau trafodion	2,431
0	Costau trosglwyddo	170
297	Ffioedd gwarchod	281
2,254	Cyfanswm treuliau rheoli buddsoddi PPC	3,495
158	Costau awdurdod cynnal	226
158	Cyfanswm costau goruchwyllo a llywodraethu PPC	226
2,412	Cyfanswm	3,721

Mae cost rhan y Gronfa yng nghyd-drefniant cyfuno buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) wedi'i chynnwys mewn Treuliau Rheoli yn nhabl cyntaf y nodyn hwn. Dadansoddir y rhain ymhellach yn y tabl uchod. Y costau Goruchwyllo a Llywodraethu yw costau rhedeg blynyddol y gronfa sy'n cynnwys costau'r awdurdod cynnal a chostau ymgynghorwyr allanol eraill. Ariennir y costau hyn yn gyfartal gan bob un o'r wyth cronfa bensiwn awdurdod lleol yng Nghymru. Mae ffioedd Rheoli Cronfa yn daladwy i Waystone Management (DU) Limited (gweithredwr PPC ac maent yn cynnwys y ffi gweithredwr a chostau cysylltiedig eraill. Mae'r costau hyn yn seiliedig ar gyfran canran pob Cronfa o asedau cyfun PPC ac maent yn cael eu didynnu o'r Gwerth Asedau Net (GAN). Ni chynhwysir ffioedd sylfaenol rheolwyr yn y tabl hwn.

11. Incwm Buddsoddi

2022/23		2023/24
£000		£000
(224)	Cronfeydd Ecwiti Preifat	(299)
(37,153)	Buddsoddiadau Cyfun	(45,600)
(3,027)	Cronfeydd Eiddo Cyfun	(3,124)
(1,865)	Llog ar arian parod yn y DU	(3,147)
(215)	Benthg ar warantau	(172)
(42,484)	Cyfanswm	(52,342)

12. Buddsoddiadau ar Werth y Farchnad

2022/23		2023/24
£000		£000
0	Seilwaith Ynni Glân PPC	2,918
198,116	Cronfa Gredyd PPC	207,395
110,799	Marchnadoedd sy'n Datblygu PPC	115,162
209,723	Twf Byd-eang PPC	199,081
531,513	Cyfleoedd Byd-eang PPC	535,216
230,817	Cronfa Bondiau'r Llywodraeth PPC	234,341
0	Seilwaith PPC	32,418
140,935	Cronfa Credyd Aml-ased PPC	155,244
0	Credyd Preifat PPC	15,126
0	Ecwiti Preifat PPC	12,370
0	Ecwiti Cynaliadwy PPC	142,092
242,488	Cronfa Ecwiti Cyfleoedd y DU PPC	173,675
1,664,391	Cyfanswm cronfeydd cyfun PPC	1,825,038
590,795	Ecwiti cyfun	735,083
2,255,186	Cyfanswm y cronfeydd cyfun (gan gynnwys PPC)	2,560,121
183,538	Cronfeydd Eiddo Cyfun	176,606
109,038	Ecwiti Preifat	105,482
2,547,762	Is-gyfanswm	2,842,209
5,115	Ceidwad a Rheolwr y Gronfa Arian Parod	5,271
82,531	Arian Parod a Reolir yn Fewnol	23,362
0	Enillion buddsoddiadau net dyledus	92,500
87,646	Cyfanswm arian parod	121,133
2,635,408	Cyfanswm asedau buddsoddiadau	2,963,342

12a. Unioni o ran symudiad mewn buddsoddiadau

2023/24	Gwerth ar 31/03/23	Prynu ar gost	Enillion gwerthu	Newid yng ngwerth y farchnad	Gwerth ar 31/03/24
	£000	£000	£000	£000	£000
Cronfeydd cyfun	2,255,186	236,935	(217,670)	285,670	2,560,121
Cronfeydd eiddo cyfun	183,538	2,724	0	(9,656)	176,606
Ecwiti preifat	109,038	9,365	(10,905)	(2,016)	105,482
Is-gyfanswm	2,547,762	249,024	(228,575)	273,998	2,842,209
Ceidwad a Rheolwr y Gronfa Arian Parod	5,115				5,271
Arian Parod a Reolir yn Fewnol	82,531				23,362
Enillion buddsoddiadau net dyledus	0				92,500
Cyfanswm arian parod	87,646				121,133
Is-gyfanswm	2,635,408			273,998	2,963,342
Symudiadau arian parod net a wireddwyd				9,985	
Cyfanswm	2,635,408			283,983	2,963,342

2022/23	Gwerth ar 31/03/22	Prynu ar gost	Enillion gwerthu	Newid yng ngwerth y farchnad	Gwerth ar 31/03/23
	£000	£000	£000	£000	£000
Cronfeydd cyfun	2,315,931	37,152	0	(97,897)	2,255,186
Cronfeydd eiddo cyfun	201,606	2,691	0	(20,759)	183,538
Ecwiti preifat	103,327	15,038	(13,359)	4,032	109,038
Is-gyfanswm	2,620,864	54,881	(13,359)	(114,624)	2,547,762
Ceidwad a Rheolwr y Gronfa Arian Parod	2,194				5,115
Arian Parod a Reolir yn Fewnol	70,059				82,531
Enillion buddsoddiadau net dyledus	0				0
Cyfanswm arian parod	72,253				87,646
Is-gyfanswm	2,693,117			(114,624)	2,635,408
Symudiadau arian parod net a wireddwyd				4,071	
Cyfanswm	2,693,117			(110,553)	2,635,408

13. Crynodeb o werthoedd portffolio'r rheolwr

2022/23		Rheolwr y Gronfa	2023/24	
£000	% o'r Gronfa		£000	% o'r Gronfa
590,795	22.4	Blackrock Investment Management	735,083	24.8
1,664,391	63.2	Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC)	1,825,038	61.6
70,052	2.7	CBRE - Eiddo Byd-eang	65,562	2.2
25,921	1.0	Blackrock UK Property	25,109	0.8
29,270	1.1	Schroder UK Real Estate	27,705	0.9
31,429	1.2	Standard Life Property	31,999	1.1
26,866	1.0	UBS Triton Property Fund	26,231	0.9
20,559	0.8	Capital Dynamics	17,239	0.6
33,278	1.3	Harbourvest	30,396	1.0
55,201	2.1	Pantheon	57,847	2.0
5,115	0.2	Ceidwad a Rheolwr y Gronfa Arian Parod	97,771	3.3
82,531	3.0	Arian parod a reolir yn fewnol	23,362	0.8
2,635,408	100.0	Cyfanswm	2,963,342	100.00

13a. Buddsoddiadau sy'n fwy na 5% o asedau net

Mae'r buddsoddiadau canlynol yn cynrychioli mwy na 5% o'r asedau net sydd ar gael i dalu buddion (naill ai yn 2022/23, 2023/24 neu'r ddwy flynedd).

2022/23		Rheolwr y Gronfa	2023/24	
£000	% yr asedau net		£000	% yr asedau net
590,795	22.4	BlackRock Low Carbon Tracker Fund	735,083	24.8
198,116	7.5	Cronfa Gredyd PPC	207,395	7.0
209,723	7.9	Twf Byd-eang PPC	199,081	6.7
531,513	20.1	Cyfleoedd Byd-eang PPC	535,216	18.0
230,817	8.7	Cronfa Bondiau'r Llywodraeth PPC	234,341	7.9
140,935	5.3	Cronfa Credyd Aml-ased PPC	155,244	5.2
242,488	9.2	Cronfa Ecwiti Cyfleoedd y DU PPC	173,675	5.9

14. Offerynnau Ariannol

14a. Dosbarthu offerynnau ariannol

Gwerth ar 31/03/23				Gwerth ar 31/03/24		
Gwerth teg drwy elw a cholledion	Cost wedi'i Hamorteiddio	Rhwymedigaethau ariannol ar gostau wedi'u hamorteiddio		Gwerth teg drwy elw a cholledion	Cost wedi'i Hamorteiddio	Rhwymedigaethau ariannol ar gostau wedi'u hamorteiddio
£000	£000	£000		£000	£000	£000
2,255,186	0	0	Cronfeydd cyfun	2,560,121	0	0
183,538	0	0	Cronfeydd eiddo cyfun	176,606	0	0
109,038	0	0	Ecwiti preifat	105,482	0	0
0	87,646	0	Arian parod	0	121,133	0
0	6,517	0	Dyledwyr	0	7,485	0
2,547,762	94,163	0	Cyfanswm asedau ariannol	2,842,209	128,618	0
0	0	(1,496)	Credydwyr	0	0	(1,673)
0	0	(1,496)	Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol	0	0	(1,673)
2,547,762	94,163	(1,496)	Asedau ariannol net	2,842,209	128,618	(1,673)

14b. Enillion a cholledion net ar offerynnau ariannol

31/03/23		31/03/24
£000		£000
(110,604)	Gwerth teg drwy elw a cholledion	284,160
(110,604)	Cyfanswm asedau ariannol	284,160
51	Cost wedi'i Hamorteiddio	(177)
51	Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol	(177)
(110,553)	Asedau ariannol net	283,983

14c. Gwerth teg – Sail y Prisiad

Buddsoddi	Dull Prisio	Mewnbynnau gweladwy ac anweladwy	Sensitifedd allweddol sy'n effeithio ar y prisiadau a ddarperir
Lefel 1 Dyfynbrisiau ar gyfer offerynnau tebyg.			
Bondiau a Ddyfynnir (Gwarantau Llog Sefydlog)	Gwerth ar y farchnad yn seiliedig ar gynnyrch cyfredol	Dim angen	Dim angen
Buddsoddiadau a Ddyfynnir yn y Farchnad	Pris marchnad cyhoeddus y cais ar ddiwedd diwrnod gwaith olaf y cyfnod cyfrifyddu	Dim angen	Dim angen

Arian parod a chywerthoedd arian parod	Ystyrir bod gwerth cario yn werth teg oherwydd natur fyrdymor yr offerynnau ariannol hyn	Dim angen	Dim angen
Lefel 2 Masnachu mewn marchnad nas ystyrir yn actif, neu pan ddefnyddir technegau prasio i benderfynu ar werth teg sy'n defnyddio mewnbynnau sy'n seiliedig yn helaeth ar ddata gweladwy'r farchnad.			
Buddsoddiadau Cyfun - Ecwitiâu a Llog Sefydlog	Pris cau'r cais lle cyhoeddir y prisiau ymgeisio a chynnig. Pris cau sengl lle cyhoeddir y pris sengl	Gosod prisiau GAN ar sail blaen-brisio	Dim angen
Lefel 3 Mewnbynnau nad ydynt yn seiliedig ar ddata gweladwy'r farchnad.			
Marchnadoedd Preifat	Prisiadau a ddarparwyd gan y partneriaid cyffredinol i'r cronfeydd yn unol â Chanllawiau Prasio Ecwiti Preifat a Chyfalaf Menter Rhyngwladol (2012)	Lluosrif enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddio (ECLITDA), lluosrif refeniw, disgownt am ddiffyg marchnadwyedd a phremiwm rheoli	Gall digwyddiadau perthnasol sy'n digwydd rhwng dyddiad y datganiadau ariannol a ddarparwyd a dyddiad adrodd y gronfa bensiwn ei hun effeithio ar brisiadau (er y cânt eu diweddarau i adlewyrchu galwadau / dosbarthiadau a wnaed yn ystod y cyfnod hwn), yn ogystal â newidiadau i lifoedd arian disgwylidig ac unrhyw wahaniaethau rhwng cyfrifon heb eu harchwilio ac wedi'u harchwilio.
Seilwaith Buddsoddiadau Cyfun	Pris cau'r cais lle cyhoeddir y prisiau ymgeisio a chynnig. Pris cau sengl lle cyhoeddir y pris sengl	Gosod prisiau GAN ar sail blaen-brisio	Gall digwyddiadau ôl-fantolen, newidiadau i lifoedd arian disgwylidig ac unrhyw wahaniaethau rhwng cyfrifon heb eu harchwilio ac wedi'u harchwilio effeithio ar brisiadau.
Buddsoddiadau Cyfun - Cronfeydd Eiddo	Pris cau'r cais lle cyhoeddir y prisiau ymgeisio a chynnig. Pris cau sengl lle cyhoeddir y pris sengl	Gosod prisiau GAN ar sail blaen-brisio	Gall digwyddiadau ôl-fantolen, newidiadau i lifoedd arian disgwylidig ac unrhyw wahaniaethau rhwng cyfrifon heb eu harchwilio ac wedi'u harchwilio effeithio ar brisiadau.

14d. Hierarchaeth Gwerth Teg

Fel y manylir uchod cafodd buddsoddiadau eu dosbarthu i dair lefel yn unol ag ansawdd a dibynadwyedd y wybodaeth a ddefnyddiwyd i bennu gwerthoedd teg. Mae'r tabl canlynol yn darparu dadansoddiad o asedau ac atebolrwydd y gronfa bensiwn yn seiliedig ar y lefel y gellir gweld y gwerth teg.

Gwerth ar 31/03/24	Dyfnbris y farchnad	Defnyddio mewnbynnau gwladwy	Gyda mewnbynnau sylweddol anweladwy	Cyfanswm
	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	
	£000	£000	£000	£000
Asedau ariannol ar werth teg	0	2,497,289	344,920	2,842,209
Cost wedi'i Hamorteiddio	128,618	0	0	128,618
Cyfanswm asedau ariannol	128,618	2,497,289	344,920	2,970,827
Rhwymedigaethau ariannol ar gost wedi'i hamorteiddio	(1,672)	0	0	(1,673)
Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol	(1,672)	0	0	(1,673)
Asedau ariannol net	126,946	2,497,289	344,920	2,969,154

Gwerth ar 31/03/23	Dyfnbris y farchnad	Defnyddio mewnbynnau gwladwy	Gyda mewnbynnau sylweddol anweladwy	Cyfanswm
	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	
	£000	£000	£000	£000
Asedau ariannol ar werth teg	0	2,255,186	292,576	2,547,762
Benthyciadau a symiau derbyniadwy	94,163	0	0	94,163
Cyfanswm asedau ariannol	94,163	2,255,186	292,576	2,641,925
Rhwymedigaethau ariannol ar gost wedi'i hamorteiddio	(1,496)	0	0	(1,496)
Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol	(1,496)	0	0	(1,496)
Asedau ariannol net	92,667	2,255,186	292,576	2,640,429

Unioni mesuriadau gwerth teg yn Lefel 3

2023/24	Gwerth ar y Farchnad ar 31/03/23	Trosglwyddiad au i lefel 3	Trosglwyddiad au allan o lefel 3	Pryniadau	Gwerthiannau	Enillion / (colledion) nas cyflawnwyd	Enillion / (colledion) a gyflawnwyd	Gwerth ar y Farchnad ar 31/03/24
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Ecwiti preifat *	109,038	0	0	9,365	(10,905)	(2,016)	0	105,482
Cronfeydd cyfun *	0	0	0	66,994	0	(4,162)	0	62,832
Cronfeydd eiddo cyfun	183,538	0	0	2,724	0	(9,656)	0	176,606
Cyfanswm	292,576	0	0	79,083	(10,905)	(15,834)	0	344,920

* Ecwiti preifat PPC wedi'i gynnwys mewn cronfeydd cyfun

14e. Sensitifrwydd Asedau wedi'u Prisio ar Lefel 3

Wedi dadansoddi data hanesyddol a thueddiadau cyfredol y farchnad, ac wedi ymgynghori ag ymgynghorwyr buddsoddi annibynnol (Pensions and Investments Research Consultants Ltd (PIRC)), mae'r Gronfa wedi penderfynu bod y dulliau prisio a ddisgrifir uchod ar gyfer buddsoddiadau Lefel 3 yn debygol o fod yn gywir o fewn yr ystodau canlynol, ac mae wedi disgrifio'r effaith ganlyniadol isod:

	Ystod brisio wedi'i hasesu	Gwerth ar 31/03/24	Gwerth ar gynnydd	Gwerth ar ostyngiad
	(%)	£000	£000	£000
Ecwiti Preifat	11.9	105,482	118,034	92,930
Cronfeydd Cyfun	11.9	62,832	70,309	55,355
Cronfeydd Eiddo Cyfun	7.1	176,606	189,145	164,067
Cyfanswm		344,920	377,488	312,352

15. Natur a helaethder risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol

Mae'r Gronfa'n rhan o amryw offerynnau, yn ôl y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi (DSF), ac o ganlyniad caiff ei hamlygu i risg credyd a hylifedd, yn ogystal â risg marchnad gan gynnwys risgiau cyfraddau cyfnewid arian tramor a llog.

Prif risg hirdymor y Gronfa yw y bydd asedau'r Gronfa'n fyr o'i rhwymedigaethau ac na all dalu'r buddion a addawyd i aelodau. Nod rheoli risg buddsoddi yw lleihau'r risg o ostyngiad cyffredinol yng ngwerth y Gronfa i wneud y mwyaf o'r cyfle i sicrhau enillion ar draws portffolio'r gronfa gyfan. Mae'r Gronfa'n cyflawni hyn drwy arallgyfeirio asedau i leihau risg y farchnad a risg credyd i lefel dderbyniol. Yn ogystal, mae rheolwyr y gronfa'n monitro ei risg o hylifedd i sicrhau bod digon o hylifedd i fodloni llifoedd arian parod y Gronfa a ragwelir.

Mae rheoli risg yn un o amcanion allweddol y Gronfa Bensiwn. Mae polisi arallgyfeirio o ddosbarthiadau asedau a rheolwyr buddsoddi'n helpu'r Gronfa Bensiwn i leihau'r risg sy'n deillio o offerynnau ariannol. Mae meincnodau ar gyfer pennu asedau a thargedau yn erbyn perfformiad disgwylidiedig rheolwyr buddsoddi'n fesurau pellach a roddir ar waith i reoli risg.

Risg y farchnad yw'r risg y bydd gwerth teg neu lifoedd arian parod y dyfodol mewn sefydliad yn amrywio oherwydd newid ym mhrys y farchnad.

Er mwyn rheoli risg, mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn cronfa amrywiol o asedau, a rennir rhwng nifer o reolwyr â thargedau perfformiad a strategaethau buddsoddi gwahanol. Er mwyn lliniaru'r risg, mae'r Gronfa'n adolygu'n rheolaidd strategaeth fuddsoddi'r gronfa bensiwn ynghyd â monitro dyraniad asedau a pherfformiad buddsoddiadau yn rheolaidd.

Y **risg cyfradd llog** yw'r risg yr amlygir y Gronfa Bensiwn iddi o ran newidiadau mewn cyfraddau llog ac mae'n ymwneud ym bennaf â newidiadau mewn bondiau.

Er mwyn lliniaru'r risg a chynyddu amrywiaeth, mae gan y Gronfa dair is-gronfa incwm sefydlog a reolir gan PPC.

Gall Cyfraddau Llog amrywio a gallant effeithio ar incwm y Gronfa a gwerth asedau net i fuddion tâl. Mae'r dadansoddiad isod yn dangos effaith symudiad (1%) pwynt sail 100 mewn cyfraddau llog ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion:

Math yr Ased	Swm Cario Ymlaen ar 31/03/24	Newid yn yr asedau net sydd ar gael i dalw buddion	
		+ 100 pwynt sail	- 100 pwynt sail
	£000	£000	£000
Arian parod a chywerthoedd arian parod	121,133	1,211	(1,211)
Cyfanswm	121,133	1,211	(1,211)

Math yr Ased	Swm Cario Ymlaen ar 31/03/23	Newid yn yr asedau net sydd ar gael i dalw buddion	
		+ 100 pwynt sail	- 100 pwynt sail
	£000	£000	£000
Arian parod a chywerthoedd arian parod	87,646	876	(876)
Cyfanswm	87,646	876	(876)

Risg arian cyfred yw'r risg yr amlygir y Gronfa Bensiwn iddi o newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid arian cyfred tramor. Bydd rheolwyr y gronfa hefyd yn ystyried y risg arian cyfred yn eu penderfyniadau buddsoddi.

Yn dilyn dadansoddiad o ddata hanesyddol ac ymgynghori gydag ymgynghorwyr buddsoddi annibynnol Pensions and Investments Research Consultants Ltd (PIRC), cafodd y newid cyfanredol mewn arian cyfred y Gronfa ei gyfrifo fel 5.60%. Byddai cryfhau/gwanhau o 5.60% yn y bunt yn erbyn yr amryw arian cyfred y mae'r Gronfa'n cadw asedau ynddynt yn cynyddu/gostwng yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion fel a ganlyn:

Amlygiad arian cyfred – math yr ased	Gwerth Asedau ar 31/03/24	Newid yn yr asedau net sydd ar gael i dalw buddion	
		+ 5.60%	- 5.60%
	£000	£000	£000
Cronfeydd cyfun tramor	2,386,446	133,641	(133,641)
Cronfeydd eiddo cyfun tramor	65,562	3,671	(3,671)
Cyfanswm newid asedau sydd ar gael	2,452,008	137,312	(137,312)

Amlygiad arian cyfred – math yr ased	Gwerth Asedau ar 31/03/23	Newid yn yr asedau net sydd ar gael i dalw buddion	
		+ 6.30%	- 6.30%
	£000	£000	£000
Cronfeydd cyfun tramor	2,012,698	126,800	(126,800)
Cronfeydd eiddo cyfun tramor	70,052	4,413	(4,413)
Cyfanswm newid asedau sydd ar gael	2,082,750	131,213	(131,213)

Risg pris yw'r risg o golledion sy'n gysylltiedig â newid prisiau'r asedau sylfaenol. Drwy arallgyfeirio buddsoddiadau ar draws dosbarthiadau a rheolwyr asedau, nod y Gronfa Bensiwn yw lleihau'r risg pris. Mae arallgyfeirio dosbarthiadau ased yn ceisio lleihau'r gyfatebiaeth rhwng symudiadau pris, tra bod cyflogi rheolwyr arbenigol yn galluogi'r Gronfa i fanteisio ar arbenigedd buddsoddi.

Penderfynir ar newidiadau posibl i brisiau'n seiliedig ar ansefydlogrwydd hanesyddol adenillion dosbarth asedau. Mae'r ansefydlogrwydd posibl yn gyson â symudiad yn newid gwerth yr asedau dros y tair blynedd ddiwethaf, sy'n berthnasol i gymysgedd ased diwedd y cyfnod. Mae cyfanswm yr ansefydlogrwydd a ddangosir isod ar gyfer cyfanswm yr asedau yn cynnwys effaith cyfatebiaeth ar draws yr holl arian cyfred sy'n effeithio ar ansefydlogrwydd ac felly ni fydd y ffigurau gwerth ar gynnydd a gwerth ar ostyngiad yn rhan o'r ffigur cyfan.

Math yr Ased	Gwerth ar 31/03/24	Newid canrannol	Gwerth ar gynnydd	Gwerth ar ostyngiad
	£000	%	£000	£000
Ecwitiau'r DU	173,675	13.00	196,253	151,097
Ecwitiau Byd-eang	1,611,472	10.60	1,782,288	1,440,656
Ecwitiau Marchnadoedd sy'n Datblygu	115,162	13.50	130,709	99,615
Incwm Sefydlog	596,980	6.90	638,172	555,788
Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod	121,133	1.00	122,344	119,922
Ecwiti/Credyd Preifat	132,978	11.90	148,802	117,154
Eiddo	176,606	7.10	189,145	164,067
Seilwaith	35,336	11.90	39,541	31,131
Cyfanswm Asedau	2,963,342		3,247,254	2,679,430

Math yr Ased	Gwerth ar 31/03/23	Newid canrannol	Gwerth ar gynnydd	Gwerth ar ostyngiad
	£000	%	£000	£000
Ecwitiau'r DU	242,488	15.00	278,861	206,115
Ecwitiau Byd-eang	1,332,031	12.70	1,501,199	1,162,863
Ecwitiau Marchnadoedd sy'n Datblygu	110,799	15.30	127,751	93,847
Incwm Sefydlog	569,868	6.20	605,200	534,536
Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod	87,646	1.30	88,785	86,507
Ecwiti Preifat	109,038	13.10	123,322	94,754
Eiddo	183,538	7.10	196,569	170,507
Cyfanswm Asedau	2,635,408		2,921,687	2,349,129

Risg credyd yw'r risg y bydd parti i gontract i offeryn ariannol yn methu â chyflawni rhwymedigaeth ac yn achosi'r Gronfa i golli gwerth. Mae'r Gronfa'n adolygu ei hamlygiad i risg credyd a pharti i gontract drwy reolwyr buddsoddi allanol. Mae'r Gronfa hefyd yn agored i risg credyd trwy ei rhaglen benthyca ar warantau a redir gan geidwad y Gronfa, Northern Trust, sy'n rheoli ac yn monitro'r risg gwrth-barti, y risg gyfochrog a'r rhaglen fenthyca gyffredinol.

Cedwir cyfrif banc y Gronfa Bensiwn gyda NatWest. Rhoddir arian gwarged gyda detholiad o sefydliadau Marchnad Arian AAA. Mae daliad arian parod y Gronfa a reolir yn fewnol dan ei threfniadau rheoli trysorlys yn cael ei gadw gyda'r sefydliadau canlynol:

	Sgôr Fitch	31/03/23	31/03/24
		£000	£000
Cronfeydd marchnad arian			
Aberdeen Standard Liquidity - Sterling Fund	AAA	28,850	0
Blackrock ICS Sterling Liquidity Fund	AAA	26,870	8,660
Deutsche Global Liquidity - Sterling Fund	AAA	26,730	14,700
Cyfrif cyfredol banc			
NatWest	A	81	2
Cyfanswm		82,531	23,362

Nid yw'r Gronfa Bensiwn wedi profi unrhyw ddiffyg-daliadau gan reolwyr cronfa, broceriaid na chyfrifon banc dros y deng mlynedd ddiwethaf, felly nid oes gofyn am unrhyw ddarpariaeth ar gyfer colled credyd ddisgwyliedig.

Risg hylifedd yw'r posibilid na fydd gan y Gronfa adnoddau i gyflawni ei rhwymedigaethau ariannol. Sefyllfa gyfredol y Gronfa yw gwarged arian parod, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod cyfraniadau at y Gronfa'n fwy na swm y taliadau a wneir. Cedwir arian parod y Gronfa mewn cyfrif banc ar wahân a chaiff y sefyllfa arian parod ei monitro'n ddyddiol. Caiff cronfeydd gwarged eu rhoi mewn cronfeydd marchnad yn y byrdymor. Ar lefel fuddsoddi, mae buddsoddiadau'r Gronfa i raddau helaeth yn warantau rhestredig a ystyrir yn wireddadwy.

16. Gwerth Presennol Actiwaraid Buddion Ymddeol a Addawyd

Mae Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) yn gofyn am ddatgelu gwerth presennol actiwaraid buddion ymddeol a addawyd wedi'u cyfrifo ar sail IAS 19, fel y rhestrir yn IAS 26.

Felly, yn ogystal â'r prisiad ariannu teirblwydd, mae actiwari'r Gronfa yn cynnal prisiad o rwymedigaethau'r gronfa bensiwn ar sail IAS 19 ar yr un dyddiad. Cynhelir prisiad IAS 19 gan ddefnyddio rhagdybiaethau actiwaraid cyfredol o'r rheiny a ddefnyddir ar gyfer gosod cyfraddau cyfraniadau'r gronfa ac nid yw cyfrifon y Gronfa yn ystyried rhwymedigaeth i dalu pensiynau a buddion eraill yn y dyfodol.

Dangosir y prisiad actiwaraid diweddaraf sy'n seiliedig ar IAS 19 isod:

31/03/2019		31/03/2022
£000		£000
3,168,100	Gwerth Presennol Actiwaraid Buddion Ymddeol a Addawyd	3,893,700
2,177,800	Gwerth teg asedau net	2,698,900

Bydd rhwymedigaethau disgwyliedig y Gronfa Bensiwn ar gyfer y dyfodol hefyd yn destun ystyriaeth dyfarniad McCloud a chydaddoli GMP. Ystyriwyd yr effaith gan yr actiwari o fewn y prisiad tair blynedd, a gynhaliwyd yn 2022 (gweler y Datganiad Actiwaraid ar dudalennau 3-5 y ddogfen hon).

17. Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGYau)

Gall aelodau'r cynllun ddewis gwneud cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol i wella eu buddion pensiwn. Gwneir cyfraniadau yn uniongyrchol o aelodau'r cynllun i'r darparwr CGY ac felly nid ydynt wedi'u cynrychioli yn y cyfrifon hyn yn unol ag adran 4(2)b Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 (OS 2009/3093). Fodd bynnag, fel yr awdurdod gweinyddu, rydym yn goruchwyllo'r trefniadau CGY canlynol:

2022/23		2023/24
£000		£000
727	CGY a dalwyd i mewn gan aelodau yn ystod y flwyddyn	1,631
5,082	Gwerth Marchnad y CGYau a fuddsoddir ar wahân	6,409

Bu cynnydd sylweddol yng nghyfraniadau'r CGY gan aelodau yn 2023/24, ar ôl i sawl cyflogwr gyflwyno Cynllun CGY Rhannu Cost.

18. Ymrwymïadau Cytundebol

Ymrwymiad ar 31/03/2023	Math yr Ased	Ymrwymiad ar 31/03/2024
£000		£000
65,536	Ecwiti Preifat (ac eithrio PPC)	58,138
10,000	Seilwaith Ynni Glân PPC	7,073
0	Ecwiti Preifat PPC *	68,980
0	Credyd Preifat PPC *	148,074
0	Seilwaith PPC *	152,452
75,536	Cyfanswm	434,717

* Buddsoddiadau newydd yn 2023/2024

19. Benthg ar Warantau

Ar ddiwedd y flwyddyn, gwerth ecwitiau a ddyfynnwyd ar fenthg oedd £84.290 miliwn (£89.982 miliwn ar 31 Mawrth 2023). Yn 2023/24 cafodd y Gronfa incwm o £172,000 drwy fenthgyca stoc (£215,000 yn 2022/23).

20. Darpariaethau a Rhwymedigaethau Wrth Gefn

Cafodd nifer o grantiau marwolaeth eu nodi lle y methodd y Gronfa olrhain y berthynas agosaf, sy'n golygu na wnaed unrhyw daliad hyd yn hyn. Ym mhob un o'r achosion sy'n weddill, cafwyd anhawster wrth gysylltu, sy'n golygu nad yw'r taliadau'n debygol o gael eu setlo o fewn y flwyddyn ariannol nesaf. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch amseriad y taliadau hyn a'r symiau terfynol sy'n daladwy, mae darpariaeth ar gyfer £0.695 miliwn wedi'i chynnwys yn y cyfrifon (£1.140 miliwn yn 2022/23), sy'n cynnwys £50,500 byrdymor (£490,000 yn 2022/23), £569,000 hirdymor a £75,000 o log amcangyfrifedig (£508,000 hirdymor a £142,000 o log amcangyfrifedig yn 2022/23).

Cysoni'r Gwarant Lleiafswm Pensiwn (GLIP) yw'r broses a ddefnyddir i sicrhau bod cofnodion y cynllun yn cytuno â rhai'r Swyddfa Cyfraniad Yswiriant Gwladol (NICO, rhan o CThEM). Mae hyn yn galluogi cynllun i ystyried bod ei ddata'n lân ac yn hollol ddibynadwy. Mae cywiro'r GLIP yn cynnwys cyfrifo a chywiro data (ac ar gyfer pensiynwyr, buddion mewn taliadau) i'r aelodau hynny lle arweiniodd y broses o gysoni'r GLIP at newid yn y GLIP a ddelir gan weinyddwr y cynllun. Mae'r GLIP yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac mae'r Gronfa wedi penodi Mercer i wneud yr ymarfer hwn. Er bod y data terfynol wedi dod i law ym mis Ebrill 2024, mae angen gwiriadau pellach, ac rydym felly'n methu â rhoi amcangyfrif dibynadwy o'r atebolrwydd ar hyn o bryd.

Ar 31 Mawrth 2024 roedd un cyflogwr yn ymgynghori â'i weithwyr gyda'r bwriad o adael y cynllun. Amcangyfrif o'r taliad gadael posibl a gyfrifwyd gan yr actiwari yn 2023/24 oedd £1.9 miliwn.

21. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Cyngor Caerdydd yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r Pwyllgor Pensiynau yn cynnwys aelodau o'r Cyngor. Ar 31 Mawrth 2024, roedd pedwar aelod o Bwyllgor y Gronfa Bensiwn yn aelodau gweithredol o'r Gronfa Bensiwn. Mae angen i bob aelod o'r Pwyllgor ddatgan ei fuddiannau ym mhob cyfarfod. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau eraill yn ystod y flwyddyn.

Ymhlith y trafodion parti cysylltiedig eraill â'r Cyngor mae:

- Y Cyngor yw'r cyflogwr mwyaf o aelodau o'r Gronfa Bensiwn. Mae'r holl arian sy'n ddyledus i'r Gronfa a chanddi yn cael ei dalu'n gyffredinol yn ystod y flwyddyn gyda'r balansau canlynol heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn
 - Mae balans arian parod rhyng-gwmni o £1,106 yn ddyledus i Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg wedi'i gynnwys yn Nodyn 12 - Arian parod a reolir yn fewnol (2022/23 £776 oedd yn ddyledus i Gyngor Caerdydd)
 - Mae straen pensiwn o £3.348 miliwn wedi'i gynnwys yn y Datganiad Asedau Net (2022/23 £2.231 miliwn)
- Arian parod a fuddsoddwyd yn fewnol gan y Cyngor (at ddibenion cyfalaf gweithio) – gweler Nodyn 13 - Crynodeb o werthoedd portffolio'r rheolwr – Arian parod a reolir yn fewnol £23.362 miliwn (2022/23 £82.530 miliwn), gan ennill 3.140 miliwn mewn llog (2022/23 £1.686 miliwn)
- Cynhwysir treuliau gweinyddol a godir ar y Gronfa gan y Cyngor yn Nodyn 10 - Treuliau Rheoli Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd y Cyngor wedi mynd i gostau o £1.190 miliwn (2022/22 £1.053 miliwn) mewn perthynas â gweinyddu a rheoli'r Gronfa a chafodd ei ad-dalu gan y Gronfa ar gyfer y treuliau hyn.
- Mae Paragraff 3.9.4.4 y Cod Ymarfer yn eithrio Awdurdodau Lleol rhag y gofynion rheoli datgelu personél allweddol yn IAS24 ar y sail y manylir ar ofynion taliadau cydnabyddiaeth swyddogion a lwfansau aelodau yn adran 3.4 y Cod. Gellir gweld cyfanswm taliad cydnabyddiaeth Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau yn Nodyn Taliadau Cydnabyddiaeth Datganiad Cyfrifon Cyngor Caerdydd.

22. Cyflogwyr sy'n Cyfrannu

Mae'r cyflogwyr sy'n cyfrannu at y Gronfa yn 2023/2024, gan dynnu sylw at newidiadau ers 2022/2023, wedi'u nodi isod:

Corff Gweinyddu	
Cyngor Caerdydd	
Cyrrff Cofrestredig	
Cynghorau	Cynghorau Tref a Chymuned
Cyngor Bro Morgannwg	Cyngor Tref y Barri
Cyrrff Addysg	Cyngor Tref y Bont-faen
Coleg Caerdydd a'r Fro	Cyngor Cymuned Llys-faen
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	Cyngor Llanilltud Fawr
Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant	Cyngor Tref Penarth
Ysgol Gyfun Stanwell	Cyngor Cymuned Pen-llin
Cyrrff Cofrestredig Eraill	Cyngor Cymuned Pentyrch
Bws Caerdydd	Cyngor Cymuned Llanbedr-y-fro
	Cyngor Cymuned Radur a Phentre-poeth
	Cyngor Cymuned Sain Ffagan
Cyrrff Derbyniedig	
A and R Cleaning Glan Morfa**	Eisteddfod Genedlaethol Cymru
A and R Cleaning Lansdowne	Glen Cleaning (Ysgol Gyfun y Barri)
A and R Cleaning St Patrick**	Greenwich Leisure Limited (GLL)
A and R Cleaning yr Eglwys Newydd	Gwasanaeth Glanhau Ysgol Gynradd Grangetown (APP)
Adult Learning Wales	Legacy Leisure
Big Fresh Cleaning	Mirus Cymru
Canolfan Technoleg Busnes Caerdydd	Theatr Newydd
Prifysgol Caerdydd	Un Llais Cymru
Gyrfa Cymru (Caerdydd a'r Fro)	Chwarae Cymru
Plant yng Nghymru *	Cyngor Chwaraeon Cymru
AQS - Ysgol Bro Morgannwg**	St Teilo's Cleaning (APP)
Colegau Cymru - Colleges Wales	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru *
Comisiwn Dylunio Cymru	

* Cyflogwyr oedd yn cyfrannu at y Gronfa yn 2023/24 ond a adawodd yn ystod y flwyddyn.

** Cyflogwyr a oedd yn cyfrannu at y Gronfa yn 2023/24 nas cyfrannodd at y Gronfa yn 2022/23.

23. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Nid oes digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd i'w hadrodd.

24. Dyddiad Awdurdodi'r Cyfrifon i'w Gyhoeddi

Awdurdodwyd y Datganiad Cyfrifon hwn i'w gyhoeddi ar 28 Tachwedd 2024 gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau. Ystyriwyd digwyddiadau ôl-fantolen hyd at y dyddiad hwn.

Rhestr Termau

Rhagdybir gwybodaeth am derminoleg cyfrifeg sylfaenol. Fodd bynnag, mae termau arbenigol penodol sy'n ymwneud â chyllid llywodraeth leol, pensiynau a buddsoddiadau, a disgrifir y rhain isod:

Sail Gronnol

Yr egwyddor gronnol yw bod incwm yn cael ei gofnodi pan gaiff ei ennill yn hytrach na phan gaiff ei dderbyn, a bod treuliau'n cael eu cofnodi pan ddaw nwyddau neu wasanaethau i law yn hytrach na phan delir amdanynt.

Rheolaeth Weithredol / Oddefol

Rheolaeth weithredol yw'r ffordd draddodiadol o reoli buddsoddi, yn cynnwys cyfres o benderfyniadau buddsoddi unigol sy'n ceisio'r adenillion gorau trwy fanteisio ar aneffeithlonrwydd pris, h.y. 'curo'r farchnad'.

Mae rheolaeth oddefol yn ddewis cost isel arall lle bydd rheolwyr fel arfer yn cadw stoc yn unol â mynegai a gyhoeddir, megis y FTSE Pob Cyfranddaliad, heb geisio perfformio'n well na ond yn hytrach gadw i fyny â'r mynegai sy'n cael ei dracio.

Actiwari

Ymgynghorydd annibynnol sy'n rhoi cyngor ar hyfywedd hirdymor y Gronfa. Bob tair blynedd mae actiwariaid y Gronfa yn adolygu asedau a rhwymedigaethau'r Gronfa ac yn adrodd i'r Cyngor ar y sefyllfa ariannol a'r cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr a argymhellir. Gelwir hyn yn brisiad actiwaraid.

Enillion a Cholledion Actiwaraid

Mewn cynllun pensiwn budd diffiniedig, dyma'r newidiadau yn y diffygion neu wargedion actiwaraid sy'n codi oherwydd nad oedd digwyddiadau'n cyd-fynd â'r rhagdybiaethau actiwaraid a wnaed yn y prisiad diweddaraf, neu gan i'r rhagdybiaethau actiwaraid newid.

Aelod Gweithredol

Cyflogai presennol sy'n cyfrannu at gynllun pensiwn.

Corff Derbyniedig

Sefydliad, y gall ei staff ddod yn aelodau o'r Gronfa drwy rinwedd cytundeb derbyn a wnaed rhwng y Cyngor a'r sefydliad. Mae'n galluogi contractwyr sy'n ymgymryd â gwasanaethau'r Cyngor sydd â chyflogeion yn trosglwyddo i gynnig aelodaeth barhaus o'r Gronfa i'r staff hynny.

Dyrannu Asedau

Dosrannu cronfeydd buddsoddi ymysg categorïau asedau, megis Bondiau, Ecwitiau, Arian Parod, Eiddo, Deilliadau ac Ecwiti Preifat. Mae dyrannu asedau yn effeithio ar risgiau ac ar adenillion.

Gwerth

Mesuriad y gall y polisi buddsoddi neu berfformiad rheolwr buddsoddi gael ei fesur yn ei erbyn.

Bondiau

Buddsoddiadau, yn bennaf mewn stociau llywodraeth, sy'n gwarantu cyfradd llog sefydlog. Mae'r gwarantau'n cynrychioli benthyciadau y gellir eu had-dalu yn y dyfodol ond y gellir eu masnachu ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig yn y cyfamser,

Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod

Symiau o arian sydd ar gael i'w defnyddio ar unwaith ac adneuon gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb ar rybudd o lai na 24 awr.

Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA)

CIPFA yw'r prif gorff cyfrifyddu proffesiynol sy'n penderfynu ar safonau cyfrifyddu a safonau adrodd i'w dilyn gan Lywodraeth Leol.

Rhwymedigaethau neu Asedau Wrth Gefn

Symiau a allai fod yn ddyledus i unigolion neu sefydliadau neu ganddynt, a allai godi yn y dyfodol ond na ellir eu pennu'n gywir ar hyn o bryd, ac na wnaed darpariaeth ar eu cyfer yng nghyfrifon y Cyngor.

Credydwy

Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a gafwyd neu wasanaethau a roddwyd, nas talwyd amdanynt ar ddyddiad y fantolen.

Ceidwad

Banc neu sefydliad ariannol arall sy'n cadw tystysgrifau stoc ac asedau eraill cleient, yn casglu difidendau ac ad-daliadau treth sy'n daladwy, ac yn setlo unrhyw bryniadau a gwerthiannau.

Dyledwyr

Symiau o arian sy'n ddyledus i'r Cyngor nas talwyd ar ddyddiad y Fantolen.

Pensiynwr Gohiriedig

Aelod sydd wedi rhoi'r gorau i dalu i mewn i'r cynllun ond nad yw wedi ymddeol eto.

Cynllun Budd Diffiniedig (Pensiynau)

Mae hwn yn gynllun pensiwn neu'n gynllun budd ymddeol arall nad yw'n gynllun cyfraniad diffiniedig. Fel arfer mae rheolau'r cynllun yn diffinio'r buddion yn annibynnol ar y cyfraniadau taladwy ac nid yw'r buddion yn ymwneud yn uniongyrchol â buddsoddiadau'r cynllun. Gall y cynllun fod wedi'i ariannu neu heb ei ariannu (gan gynnwys ariannu amodol).

Cynllun Cyfraniad Diffiniedig (Pensiynau)

Mae Cynllun Cyfraniad Diffiniedig yn bensiwn neu gynllun budd ymddeol arall y mae'r cyflogwr yn talu cyfraniadau rheolaidd i mewn iddo fel swm neu fel canran o dâl ac ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i dalu cyfraniadau eraill i'r cynllun os nad oes gan y cynllun ddigon o asedau i dalu'r holl fuddion cyflogeion o ran gwasanaeth cyflogeion yn y cyfnod presennol neu flaenorol.

Marchnadoedd sy'n Datblygu

Marchnadoedd stoc cymharol newydd ac anaeddfed ar gyfer ecwitiau neu fondiau. Gall setliad a hylifedd fod yn llai dibynadwy nag yn y marchnadoedd 'datblygedig' mwy sefydledig, ac maent yn dueddol o fod yn fwy anwadal.

Cyfraddau Cyfraniadau Cyflogwyr

Canran cyflog cyflogeion y mae cyflogwyr yn ei thalu fel cyfraniad tuag at bensiwn cyflogeion.

Ecwitiâu

Cyfranddaliadau arferol mewn cwmnïau yn y DU a thramor a fasnechir ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig. Mae gan randdeiliaid ddiddordeb yn elw'r cwmni ac efallai y byddant fel arfer yn pleidleisio mewn cyfarfodydd cyfranddalwyr.

Gwerth Teg

Gwerth Teg yw'r pris fyddid yn ei gael o werthu ased neu ei dalu i drosglwyddo rhwymedigaeth mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranogwyr yn y farchnad ar y dyddiad mesur.

Asedau Ariannol

Mae asedau ariannol yn arian parod, offerynnau ecwiti o fewn endid arall (e.e. cyfranddaliadau) neu hawl cytundebol i dderbyn arian parod neu ased arall o endid arall (e.e. dyledwyr) neu gyfenwid asedau ariannol neu rwymedigaethau ariannol dan amodau a fydd o bosibl yn ffafriol (e.e. deilliadau).

Offerynnau Ariannol

Mae offeryn ariannol yn unrhyw gcontract sy'n peri ased ariannol un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti un arall. Mae'r term 'offeryn ariannol' yn cwmpasu asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol ac mae'n cynnwys yr asedau a'r rhwymedigaethau ariannol symlaf fel symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau taladwy drwy fasnach a'r rhai cymhlethaf fel deilliadau a deilliadau mewnblanedig.

Rhwymedigaethau Ariannol

Mae asedau ariannol yn rhwymedigaethau cytundebol i ddosbarthu arian parod neu ased ariannol arall (e.e. credydwyr) neu gyfnewid asedau ariannol neu rwymedigaethau ariannol dan amodau a allai fod yn anffafriol o bosibl (e.e. deilliadau).

Gwarantau Llog Sefydlog / Bondiau

Buddsoddiadau, y rhan fwyaf ohonynt mewn stociau llywodraeth, sy'n gwarantu cyfradd llog. Mae gan fondiau confensiynol gyfraddau sefydlog, tra bod rhai sy'n Gysylltiedig â Mynegai yn amrywio gyda chwyddiant. Maent yn cynrychioli benthyciadau i'w had-dalu ar ddyddiad yn y dyfodol, ac y gellir eu masnachu ar gyfnewidfa stoc yn y cyfamser.

Rheolwr y Gronfa

Cronfa sy'n ymdrin â buddsoddiadau ar ran y gronfa bensiwn yn unol â mandad buddsoddi y cytunwyd arno.

Cronfa Cronfeydd

Cronfa gyfun sy'n buddsoddi mewn cronfeydd cyfun eraill. Gall symud arian rhwng y cronfeydd gorau yn y diwydiant, ac felly anelu at leihau risg i randdeiliaid gyda mwy o amrywiaeth nag sy'n cael ei chynnig gan gronfa sengl.

Datganiad Strategaeth Ariannu (DSA)

Mae'r DSA yn ddogfen sy'n mynd i'r afael â'r mater o brif gyfrifoldeb y Gronfa i sicrhau bod gan y Gronfa ddigon o asedau i sicrhau y gellir gwneud rhwymedigaethau i dalu buddion pensiwn. Bydd yn anelu at sicrhau solfedd ac effeithlonrwydd cost hirdymor y Gronfa drwy gymryd golwg darbodus mwy hirdymor ar sut mae'n ariannu ei rhwymedigaethau i dalu budd-daliadau yn y dyfodol. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn paratoi, cynnal a chyhoeddi'r DSA ar ôl gweithredu ar gyngor proffesiynol a ddarperir gan Actiwari'r Gronfa.

Nam

Gostyngiad yng ngwerth ased islaw ei werth a ddygwyd ymlaen yn y Fantolen. Ymhlith yr enghreifftiau o ffactorau allai achosi gostyngiad mewn gwerth mae gostyngiadau cyffredinol mewn prisiau, a gostyngiad sylweddol yng ngwerth marchnad ased.

Mynegai

Cyfrifiad o bris cyfartalog cyfranddaliadau, bondiau neu asedau eraill mewn marchnad a benodir i ddarparu syniad o'r perfformiad cyfartalog a thueddiadau cyffredinol yn y farchnad.

Datganiad Strategaeth Fuddsoddi (DSF)

Y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi y mae gofyn i bob cronfa CPLIL ei baratoi a pharhau i'w adolygu.

Rhwymedigaethau

Symiau sy'n ddyledus i unigolion neu sefydliadau y bydd yn rhaid eu talu yn y dyfodol. Mae rhwymedigaethau cyfredol fel arfer yn daladwy ymhen blwyddyn o ddyddiad y Fantolen.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL)

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a lywodraethir gan reoliadau a gyhoeddir gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (FfBTCh).

Perthnasedd

Mae gwybodaeth yn berthnasol os yw ei hepgor neu ei cham-ddatgan yn gallu dylanwadu ar y penderfyniadau a wna defnyddwyr ar sail y wybodaeth ariannol am awdurdod adrodd penodol.

Cronfa Bensiwn

Cronfa a gronnir o ddidyniadau o dâl cyflogai, cyfraniadau gan gyflogwyr ac incwm buddsoddi y telir buddion pensiwn ohono.

Pensiynwr

Aelod o'r cynllun a dderbyniodd pensiwn gan y Gronfa.

Cronfeydd Cyfun

Mae cerbydau buddsoddi cyfun yn dosbarthu unedau i ystod o fuddsoddwyr. Mae prisiau unedau'n symud mewn ymateb i newidiadau yng ngwerth y portffolio gwaelodol, ac nid yw buddsoddwyr yn berchen yn uniongyrchol ar asedau yn y gronfa.

Portffolio

Term cyfunol am yr holl fuddsoddiadau a ddelir mewn cronfa, marchnad neu sector. Mae portffolio ar wahân yn bortffolio o fuddsoddiadau o fath penodol a ddelir yn uniongyrchol yn enw'r buddsoddwr e.e. Bondiau Rhyngwladol neu farchnad benodol e.e. Ecwitiâu'r DU, Ecwitiâu'r Dwyrain Pell.

Addasiadau Cyfnod Blaenorol

Mae'r rhain yn addasiadau perthnasol a gymhwysir i gyfnod blaenorol sy'n codi o newidiadau'n unol â pholisïau cyfrifyddu neu i gywiro gwallau sylfaenol.

Credyd Preifat

Buddsoddiadau a wnaed gan reolwyr arbenigol mewn benthyciadau a drafodwyd yn breifat a wneir y tu allan i'r rhwydwaith bancio traddodiadol.

Ecwiti Preifat

Buddsoddiadau a wneir gan reolwyr arbenigol ym mhob math o gwmnïoedd anghofrestredig, yn hytrach na thrwy gyfranddaliadau y gellir eu masnachu'n gyhoeddus.

Marchnad Breifat

Buddsoddi mewn offerynnau dyled neu ecwiti nad ydynt yn cael eu masnachu ar gyfnewidfeydd cyhoeddus neu farchnadoedd stoc. Gall y Buddsoddiadau hyn gynnig enillion uwch a mwy o reolaeth dros y buddsoddiad, o'i gymharu â buddsoddiadau a restrwyd yn gyhoeddus, ond gallent hefyd ddod â risgiau uwch a hylifedd is.

Darpariaethau

Symiau a neilltuwyd o ran rhwymedigaethau neu golledion sy'n debygol neu'n sicr o ddigwydd, ond nad yw'r union swm na'r dyddiad setlo'n sicr.

Partïon Cysylltiedig

Partïon cysylltiedig yw'r Llywodraeth Ganolog, Awdurdodau Lleol eraill, cyrff sy'n codi praesept ac ardollau, is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiedig, Aelodau Etholedig, yr holl uwch swyddogion o'r Cyfarwyddwr ac uwch. O ran unigolion a nodwyd fel partïon cysylltiedig, rhagdybir bod y canlynol hefyd yn bartïon cysylltiedig:

- aelodau o'r teulu agos, neu o'r un aelwyd; a
- phartneriaethau, cwmnïau, ymddiriedolaethau neu endidau eraill lle mae'r unigolyn, neu aelod o'i deulu agos ar yr un aelwyd, â buddiant rheoli.

Dychwelyd

Cyfanswm yr enillion o ddal buddsoddiad, gan gynnwys incwm ac unrhyw gynnydd neu leihad o ran gwerth y farchnad. Fel arfer mynegir adenillion dros gyfnodau sy'n hwy na blwyddyn fel adenillion blyneddol cyfartalog.

Cyflogwyr y Cynllun

Awdurdodau lleol a chyrff a benodir yn y Rheoliadau CPLIL, y mae eu cyflogeion yn gymwys yn awtomatig i fod yn aelodau o'r Gronfa, a Chyrff Derbyn gan gynnwys cyrff gwirfoddol, elusennol a rhai tebyg sy'n gwneud gwaith cyhoeddus ei naws, y gall eu staff ddod yn aelodau o'r Gronfa drwy rinwedd cytundeb derbyn gyda'r Cyngor.

Corff Cofrestredig

Sefydliad sydd â'r hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol dan reoliadau'r cynllun. Nid oes angen derbyn sefydliad o'r fath, oherwydd bod ei hawl i aelodaeth yn awtomatig.

Enillion / Colledion nas Gwireddwyd

Y cynnydd neu'r lleihad yng ngwerth marchnad buddsoddiadau a ddelir gan y Gronfa ers dyddiad eu prynu. Mae gwerthoedd drwy gydol y cyfrifon hyn yn cael eu cyflwyno wedi'u talgrynnu i rifau cyfan.

Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC)

Mae cronfa PPC yn gydweithrediad o bob un o'r wyth cronfa CPLIL yng Nghymru, gan gynnwys Dyfed, yr Awdurdod Cynnal. Mae'n gweithredu trwy Gyd-bwyllgor Llywodraethu sy'n cael ei gynrychioli gan bob un o'r wyth Cronfa. Mae'r trefniadau llywodraethu wedi'u nodi mewn Cytundeb Rhyng-Awdurdod a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Pensiynau a Chyngor Llawn yr Awdurdod Gweinyddu ym mis Mawrth 2017.